# Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 23-08 (p2) : 8 Hydref 2008**

## Papur gan Gyngor Bro Morgannwg sy'n cael ei gyflwyno cyn Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gynhelir ar 8 Hydref 2008.

### Diben

1. Diben y papur hwn yw:

Rhoi syniad bras o ymateb y Cyngor i'r ddeiseb 'Ymfalchïo yn y Barri'.

Egluro sut y bydd y Cyngor yn cydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru a sut y bu'n cydweithio ag Awdurdod Datblygu Cymru cyn ei uno â'r Cynulliad yn 2006.

Disgrifio sut y mae'r Cyngor yn gweld adfywio'r Barri yn y dyfodol.

Mynegi sut yn union y mae'r Cyngor yn bwriadu cydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru dros dymor mwy na'r tymor byr.

2. Mae'r papur hwn yn argymell Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i dderbyn y camau hyn:

Cydnabod rôl hanesyddol y Barri fel Porthladd a Thref Wyliau'r Cymoedd ac effaith hyn ar amgylchiadau economaidd-gymdeithasol ac amgylchedd yr ardal.

Gyda golwg ar Gynllun Gofodol Cymru, ymrwymo ar unwaith i ddatblygu ac ariannu Cynllun Darparu treiglol 3 blynedd er mwyn i'r Barri gael datblygu i'r eithaf fel prif dref Ardal Cyfle Strategol Sain Tathan a De-ddwyrain Cymru.

### Cefndir

### Ymateb y Cyngor i ddeiseb 'Ymfalchïo yn y Barri'

3. Amlinelliad economaidd-gymdeithasol: Ers 50 mlynedd bellach, y mae porthladd a thref wyliau'r Barri'n dioddef o ganlyniad uniongyrchol i'r dirywiad ym maes glo De Cymru. Dyma dref fwyaf De Cymru, ac mae ganddi boblogaeth o ryw 50,000 ar hyn o bryd. Fel hen dref ddiwydiannol, mae'n rhannu nifer o amgylchiadau economaidd-gymdeithasol â threfi tebyg yng nghymoedd y de sef:

Mae 20% o deuluoedd y dref yn rhentu eu cartrefi.

Mae 12 o'r 32 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn y dref wedi'u henwi ymhlith y 30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru a 2 o'r rheiny wedi'u henwi ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig.

Yn ôl Astudiaeth ar Dir Cyflogaeth a gynhaliodd Group BE ar ran Cyngor Bro Morgannwg yn 2007, mae gan y farchnad eiddo farn weddol isel o'r Barri fel lle a all gynnig tir ac adeiladau ar gyfer creu swyddi. Mae'r adroddiad yn annog y Cyngor i gydweithio â phrif bartneriaid fel Llywodraeth y Cynulliad er mwyn goresgyn unrhyw broblemau sy'n ei rwystro rhag datblygu prif safleoedd, yn enwedig yn y Barri .

Roedd tabl cynghrair o ganol trefi Cymru a luniwyd yn 2008, yn gosod canol y Barri (Heol Holton) yn wythfed ar hugain y tu ôl i drefi o faint tebyg fel Castell Nedd, Llanelli, Caerffili, Pen-y-bont ar Ogwr, Aberdâr, Pontypridd, Merthyr Tudful, Glynebwy ac Aberafan. Lluniwyd y tabl gan "King Sturge" a "Geobusiness Solutions" ar sail nifer y siopwyr a'u gallu i wario. Gwelwyd peth cynnydd yn 2008 pan osodwyd y Barri'n 24$^{ain}$ allan o 28 yn y fersiwn diweddaraf o'r tabl.

4. Ansicrwydd ynglyn â nawdd: Mae'r Cyngor yn cydnabod na fedr gynnal prosiect adfywio llwyddiannus heb nod cyson a nawdd dros dymor llawer mwy na'r tymor byr. Cafodd y Barri lai o nawdd na gweddill y de-ddwyrain ar gyfer ei gwaith adfywio, a bu ansicrwydd drwy gydol y flwyddyn ariannol hefyd ynglyn â phryd i hawlio grant a faint o grant i'w hawlio. Bydd hyn yn effeithio ar ein ffordd o ddatblygu a rheoli prosiectau adfywio.

5. Anghysondebau noddi: Ers dechrau adfywio'r Barri, y mae llai o ardaloedd â Statws Ardal â Chymorth ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r UE yn fwy tebyg o fuddsoddi'n gyntaf yng Nghymoedd y De a Gorllewin Cymru. Mae colli Cronfa Adfywio Ffisegol Llywodraeth y Cynulliad wedi tanseilio'r gwaith yn y Barri'n fwy fyth am na ddaeth unrhyw beth yn ei lle. Ar ben hynny, er bod Rhaglen Gydgyfeirio Cronfa Datblgyu Rhanbarthol Ewrop (Blaenoriaeth 5, Thema 1) yn ymdrin ag adfywio ffisegol (gan gynnwys adfywio canol trefi), nid oes unrhyw flaenoriaeth/thema gyfatebol yn y Rhaglen Gystadleurwydd. Mae Cronfa Canlyniadau Llywodraeth y Cynulliad yn caniatáu i ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn y Rhaglen Gydgyfeirio ddefnyddio nawdd Cydgyfeirio fel arian cyfatebol. Nid oes unrhyw ffordd i ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn y Barri gael arian cyfatebol drwy'r Rhaglen Gystadleurwydd.

### Sut y bydd y Cyngor yn cydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru a sut y bu'n cydweithio ag Awdurdod Datblygu Cymru cyn ei uno â'r Cynulliad yn 2006

6. Cynlluniau Blaenorol:

Cydfenter y Barri (y Barri ar Waith) 1994 - 2006. Cafodd y fenter hon ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Bro Morgannwg, Cyngor Sir De Morgannwg ac Awdurdod Datblygu Cymru ei sefydlu ym Mawrth 1994, yn sgîl llunio strategaeth eang. Tîm prosiect yn cael ei gyd-drefnu gan reolwr prosiectau o Awdurdod Datblygu Cymru a fu'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth.

Cydgynllun y Barri 1992-2007. Cafodd prosiect i adnewyddu 190 erw o amgylch Doc 1 ei gyfarwyddo a'i reoli drwy fenter a sefydlwyd ar y cyd â Phorthladdoedd Cysylltiedig Prydain ac Awdurdod Datblygu Cymru. Er mai'r cyntaf o Ionawr 1992 oedd dyddiad cychwyn swyddogol y prosiect hwn, llwyddwyd i wneud y gwaith paratoadol a chytuno ar Benawdau Telerau cyn hynny. Cafodd y cytundeb llawn ei lofnodi ym 1994. O dan hwnnw, cytunodd Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain ac Awdurdod Datblygu Cymru i fuddsoddi arian er mwyn trin darnau sylweddol o dir heintiedig a chreu safleoedd o safon uchel ar gyfer eu datblygu. Byddai incwm wedyn yn cael ei rannu ar sail pro rata rhwng y ddau sefydliad.

7. Hyd yn oed cyn yn sefydlu Cydgynllun y Barri'n ffurfiol mewn trafodaethau rhwng yr awdurdodau lleol ac Awdurdod Datblygu Cymru, roedd pawb yn sylweddoli na fyddai'r gwaith datblygu yn Ardal y Glannau'n ddigon i adfywio'r dref. Roedd angen cynllun cyson tymor hir er mwyn dod â newid ac ymdrin ag achosion ac olion y dirywiad yn y Barri. Pwrpas y gydfenter ar wahân, 'Y Barri ar Waith' oedd gwneud beth bynnag a fyddai angen ei wneud er mwyn adfywio'r dref, ac roedd yn amlwg y cymerai'r cyfan gryn dipyn o amser. Mae'r broses ar ei hanner ar hyn o bryd, a bydd angen cymorth gan bob adran o Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn sicrhau ei bod yn parhau yn y dyfodol. Mae'n werth cofio bod grantiau ar gael yn ystod y 1990au ar gyfer tir anial a datblygu strategol. Bu'r rheiny o gymorth i ni agor y ffordd i Ardal y Glannau a gwella cysylltiadau rhwng yr arfordir a'r dref a dorrwyd ers llawer dydd. Am nad yw'r grantiau hyn ar gael i'r un graddau erbyn hyn, mae peth o'r hen ysgogiad i ailgysylltu'r Barri wedi'i golli. Bu'r Gronfa Adfywio Ffisegol a sefydlwyd yn 2004, o gymorth i ddau brif brosiect yn y Barri (clirio adeiladau'r hen wersyll gwyliau a gwella Heol Holton) ond aeth y rhan honno o'r fframwaith adfywio ar goll hefyd erbyn hyn.

8. Cynlluniau Presennol: Partneriaeth Adfywio'r Barri o 2006 hyd yr amser presennol. Y cynllun hwn o dan arweiniad Cyngor Bro Morgannwg yw olynydd 'Y Barri ar Waith' yn sgîl uno Awdurdod Datblygu Cymru â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dechreuwyd paratoi ar ei gyfer yn 2005 drwy ffurfio Bwrdd Partneriaeth Adfywio'r Barri. Corff anweithredol yw hwn sy'n cynnwys Aelodau Gweithredol, swyddogion Awdurdod Datblygu Cymru a chynrychiolwyr o'r gymuned leol a busnesau lleol. Bydd Bwrdd y Bartneriaeth yn ein helpu i ddod i benderfyniadau doethach; yn helpu i integreiddio gwasanaethau ac yn helpu'r Cyngor a Llywodraeth Cynulliad Cymru i wneud penderfyniadau am wario a rhannu adnoddau. Mae Partneriaeth Adfywio'r Barri wedi mabwysiadu Gweledigaeth Adfywio ar gyfer y dref a Fframwaith Strategol ar gyfer buddsoddi sydd wedi'i seilio ar chwe phrif brosiect a Chynllun Darparu treiglol drafft ar gyfer 3 blynedd. Ni fydd rhagor o waith yn cael ei wneud ar y Cynllun Darparu nes i ni glywed canlyniad arolwg Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglyn â rhannu nawdd adfywio yng Nghymru.

### Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer adfywio'r Barri yn y dyfodol

9. Mae Cynllun Gofodol Cymru'n enwi'r Barri fel prif anheddiad allweddol. Yng ngoleuni hynny, y mae Partneriaeth Adfywio'r Barri wedi mabwysiadu Gweledigaeth Adfywio a Fframwaith Strategol ar gyfer y dref.

Datganiad o Weledigaeth Adfywio ar gyfer 2005-2020 – Bydd Barri'r dyfodol yn lle deinamig a chystadleuol wrth ymyl prif ddinas Cymru ac unig faes awyr rhyngwladol Cymru. Bydd yn lle gwahanol, deniadol a diogel i'r sawl sy'n chwilio am le i weithio, byw, bwrw gwyliau neu fuddsoddi arian, a bydd yn cyfrannu'n strategol at dwf economaidd De-ddwyrain Cymru. Bydd yn cael enw am ragori ym meysydd mentergarwch, hamdden a thwristiaeth, a bydd amlygrwydd a rhagoriaeth academaidd ei sectorau addysg uwch a phellach blaenllaw'n ychwanegu at ei statws.

10. Mae'r Datganiad o Weledigaeth wedi esgor ar nifer o nodau cysylltiedig sy'n ffurfio'r fframwaith strategol canlynol ar gyfer buddsoddi:

Y Barri: lle bendigedig i fyw – rhoi hwb i'r boblogaeth

Mae gennym weledigaeth o'r Barri fel prif dref yn Ne-ddwyrain Cymru sy'n gydnaws â Chaerdydd ond yn chwarae rôl bur wahanol. Am fod Rheilffordd y Fro'n rhedeg drwy'r ardal ac y mae cymaint o gyfle i ddatblygu tir llwyd yn Ardal y Glannau, y mae'r Barri'n sicr yn un o'r mannau gorau i fyw erbyn hyn.

Y Barri: seren ar ei chynnydd – rhannu manteision

Mae'r weledigaeth yn gofyn am greu'r rhwydwaith mewnol angenrheidiol ac ychwanegu at werth yr ardal. Yn y modd yma bydd manteision Ardal y Glannau'n cyrraedd y gymuned ehangach, a byddwn yn gallu cynllunio'n dda ar gyfer ei defnyddio mewn pob math o ffyrdd newydd a chynaliadwy. Wrth ailgysylltu Ardal y Glannau â Chanol y Dref ac Ynys y Barri, daw mwy o alw am wasanaethau lleol a mwy o gefnogaeth i brosiectau adfywio yn nhref wyliau'r Barri a chanolfannau siopa Heol Holton a'r Stryd Fawr.

Y Barri: tref ddysgu – creu diwylliant dysgu gydol oes

Mae'r weledigaeth yn gofyn i ni gydweithio â'r sectorau addysg uwch a phellach er mwyn i'r Barri gael tyfu'n batrwm o le ar gyfer dysgu gydol oes a thrwy hynny helpu i ddenu mwy o bobl i fyw a gweithio yn y dref.

Y Barri: lle bendigedig i weithio a chychwyn busnes

Mae'r weledigaeth yn gofyn am ddatblygu'r Barri fel lle rhagorol ar gyfer cychwyn a datblygu busnes. Bydd cyfran sylweddol o weithlu'r Barri'n gweithio y tu allan i'w gymunedau, felly dyma gyfle i gadw mwy o bobl mewn swyddi lleol a chydymffurfio â'r agenda ar gyfer gweithredu cynaliadwy ar yr un pryd. Gallem ddod â'r maen i'r wal drwy ddarparu gwell tir ac adeiladau, swyddfeydd archwiliedig a mannau gweithio o dan reolaeth er mwyn denu pobl i gychwyn busnesau yn y Barri.

Y Barri: lle bendigedig ar gyfer ymwelwyr – denu mwy o ymwelwyr yn ôl

Fel tref ar gyrion Caerdydd, mae'r Barri mewn sefyllfa arbennig o dda i ddenu ymwelwyr sydd am ymweld â rhywle braf ar lan y môr. Byddwn yn sicrhau bod gennym well gyfleusterau fyth i'w cynnig drwy ddatblygu Rheilffordd y Fro, marina yn Noc 1 a mwy o weithgareddau dwr yn Ynys y Barri.

Y Barri: lle hawdd ei gyrraedd – gweithio dros drafnidiaeth gynaliadwy

Fel tref wrth ymyl unig faes awyr rhyngwladol Cymru, lle mae Rheilffordd y Fro a phosibiliadau di-ben-draw ar gyfer datblygu Ardal y Glannau, rydym mewn sefyllfa heb ei hail i arwain yr ymgyrch dros roi'r gorau i ddefnyddio ceir.

Y Barri: lle i ymfalchïo ynddo – buddsoddi yn y dylunio gorau

Mae'r weledigaeth yn gofyn am greu tref y gall pawb fod yn wirioneddol falch ohoni oherwydd safon ei hadeiladau – yn enwedig y ganolfan ddinesig yn Heol Holton. Mae'n rhaid i'r Barri gael delwedd fwy bywiog.

Y Barri: ardal lle mae cymunedau cynaliadwy – bodloni anghenion lleol

Er mwyn i waith adfywio fod yn gynaliadwy, mae'n rhaid ymdrin ag effaith economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol y gwaith hwnnw mewn ffordd integredig. Am fod cymaint o wahanol bobl yn ymwneud â'r cynllun adfywio, a'i fod yn cael ei ariannu o wahanol ffynonellau, mae'n rhaid i bwy bynnag sy'n ei reoli fod yn barod i wneud y cysylltiadau iawn. Mae'n bwysig felly fod yr agenda adfywio'n clymu'r holl anghenion a chynlluniau adfywio yn y Barri ynghyd.

11. Mae'r fframwaith strategol wedi'i seilio ar chwe phrif brosiect sy'n gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru adeiladu ar fuddsoddiadau sector preifat fel y datblygiad yn Ardal y Glannau a phrosiect Metrix yn Sain Tathan. Gwaith pwysig iawn yw hwn yn yr hinsawdd economaidd bresennol, a gallai ei wneud drwy ddarparu'r rhwydwaith mewnol angenrheidiol a fyddai'n ychwanegu gwerth at y gwaith adfywio a sicrhau bod ei fanteision yn cyrraedd ymhellach. Dyma'r prif brosiectau:

Cysylltu'r ardal â'r maes awyr a thraffordd yr M4

Gwella Rheilffordd Bro Morgannwg

Gweithredu Cam 2 ym mhrosiect Ardal y Glannau (y Barri)

Datblygu safleoedd perthnasol yn Ynys y Barri

Datblygu marina yn Noc 1

Gweithredu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Canol Tref y Barri (Heol Holton).

12. Bydd y prif brosiectau'n hollol gydnaws â'r prosiectau preifat yn Ardal y Glannau a Sain Tathan (Metrix). Eu nod yw helpu'r dref i ddatblygu'n ganolfan ranbarthol bwysig yn Ne-ddwyrain Cymru a chyrraedd ei photensial economaidd llawn fel rhan o'r 'Ardal Cyfle Strategol' o amgylch Sain Tathan. Serch hynny, y farchnad sy'n gyrru'r prosiectau preifat, ac ni allant ysgogi datblygiad nac adfywiad economaidd yn y dref onibai fod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ymyrryd er mwyn eu cefnogi.

### Sut y mae'r Cyngor yn bwriadu cydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru dros dymor mwy na'r tymor byr

13. Mae'r Cyngor yn ddigon atebol i gynnal prosiectau ac wedi dangos ei fod yn gallu rheoli cyfnodau o newid pan fydd amgylchiadau ariannol a gwleidyddol yn pwyso'n drwm arno. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, y mae Partneriaeth Adfywio'r Barri wedi llwyddo i ddod â phrosiect adnewyddu gwerth miliynau o bunnoedd i ben yn Neuadd y Dref, Sgwâr y Brenin a'r Parc Canolog. Mae hefyd wedi dechrau gweithredu rhaglen fuddsoddi gymhleth ar gyfer adnewyddu canolfannau siopau Heol Holton gam wrth gam.

14. Er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith adnewyddu yn y Barri, mae'n rhaid i ni bellach geisio sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cytuno i ariannu Cynllun Darparu treiglol ar gyfer y tair blynedd nesaf. Rydym wedi rhoi'r gorau i lunio'r cynllun hwnnw, nes i ni glywed canlyniad arolwg Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglyn â rhannu nawdd adfywio yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gwybod bod y cynghorau'n siomedig na fu gan awdurdodau lleol unrhyw ran yn yr arolwg presennol.

15. Mae'r Cynllun Darparu drafft yn cynnig y dylai pob prosiect gael ei asesu'nôl ei gyfraniad at gyfiawnder cymdeithasol, cynaliadwyedd a chynhwysiant yn rhaglen 'Cymru'n Un' Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar gyfer llywodraeth. Yn ogystal â hynny, bydd gennym ddangosyddion sylfaenol ar ffurf Fframwaith Mesur Perfformiad ar gyfer mesur canlyniadau prosiectau ac unrhyw gynnyrch y gellir ei fesur.

### Crynodeb / Argymhellion

### Crynodeb

16. Am ei bod yn hen dref ddiwydiannol, mae'r Barri'n rhannu nifer o amgylchiadau economaidd-gymdeithasol â threfi tebyg yng Nghymoedd y De. Serch hynny, ers dechrau adnewyddu'r dref, mae llai o ardaloedd â Statws Ardal â Chymorth ac mae Llywodraeth y Cynulliad a'r UE yn fwy tebyg erbyn hyn o fuddsoddi yng Nghymoedd y De a Gorllewin Cymru.

17. Mae'r Cyngor yn cydnabod na fedr gynnal prosiect adfywio llwyddiannus heb nod cyson a nawdd oddi wrth Lywodraeth Cynulliad

Cymru dros dymor llawer mwy na'r tymor byr er mwyn gweithredu Cynllun Darparu treiglol am y tair blynedd nesaf.

18. Ni fydd rhagor o waith yn cael ei wneud ar y Cynllun Darparu nes i ni glywed canlyniad arolwg Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglyn â rhannu nawdd adfywio yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gwybod bod y cynghorau'n siomedig na fu gan awdurdodau lleol unrhyw ran yn yr arolwg presennol. Mae'n amlwg bod diffyg agwedd agored ynglyn â threfniadau wedi arafu'r gwaith adfywio yn y Barri gryn dipyn, a bu llawer o ddyfalu ynglyn â statws y dref yn y dyfodol oherwydd hynny.

19. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ran strategol bwysig i'w chwarae yn yr hinsawdd ariannol bresennol drwy adeiladu ar fuddsoddiadau yn y sector preifat fel y datblygiad yn Ardal y Glannau (y Barri) a phrosiect Metrix yn Sain Tathan. Dylai wneud hynny drwy ddarparu'r rhwydwaith mewnol angenrheidiol a fydd yn ychwanegu at werth y gwaith ac ysgogi datblygiad economaidd ac adfywiad yn y Barri.

## Argymhellion

20. Rydym yn argymell Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gefnogi'r camau hyn:

Cydnabod rôl hanesyddol y Barri fel Porthladd a Thref Wyliau'r Cymoedd ac effaith hyn ar amgylchiadau economaidd-gymdeithasol ac amgylchedd yr ardal.

Gyda golwg ar Gynllun Gofodol Cymru, ymrwymo ar unwaith i ddatblygu ac ariannu Cynllun Darparu treiglol 3 blynedd er mwyn i'r Barri gael datblygu i'r eithaf fel prif dref Ardal Cyfle Strategol Sain Tathan a De-ddwyrain Cymru.